**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Adeiladu**
**Cofnodion**

**Aelodau Cynulliad yn bresennol**
Joyce Watson AC
Jeremy Miles AC
Jenny Rathbone AC

**Yn bresennol**
Donna Griffiths - CITB Cymru
Laura Lewis – CITB Cymru
Ken Pearson - Bluestone Builders
Elinor Weekley - RICS (Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig)
Owain Morris - Morlun Llanw
Mark Bowen - Andrew Scott Ltd
Sharon Davies - Llywodraeth Cymru
Peter Wong - Swyddfa Jenny Rathbone
Michelle Davies - ECA
Darren Price - Swyddfa Dai Lloyd AC
Ifan Glyn - FMB (Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr)
Nicholas Blundell – UCATT (Undeb Adeiladu, Crefftau Perthynol a Thechnegwyr)
Owain Jones - TRJ Limited
Ed Evans - CECA Cymru (Cymdeithas Contractwyr Peirianneg Sifil)
Helen Cain - RICS (Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig)
Stephen Thomas
Stephen Lawrence - ICE (Sefydliad y Peirianwyr Sifil: Cymru)

**Ymddiheuriadau**
Mark Bodger - CITB

**Cofnodion**

Cyflwynodd Joyce Watson AC, Cadeirydd y Grŵp, yr heriau sy'n wynebu'r diwydiant adeiladu o ran ariannu, sgiliau a darpariaeth.

Rhoddodd Donna Griffiths gyflwyniad ar ragfynegi gofynion adeiladu Cymru yn y dyfodol.

Fe soniodd am:

- Yr hyn y mae trafod sgiliau yn ein galluogi i'w sefydlu
- Sut rydym yn amcangyfrif y cyflenwad a'r galw
- Sut i gyfrif y galw
- Nodwydd y ffigurau twf allbwn a ragdybir yng Nghymru.
- Trosolwg o'r Bibell Seilwaith ac Adeiladu Genedlaethol
- Materion yn ymwneud â chynllunio sgiliau yng Nghymru, gyda chyfeiriad at weithio mewn partneriaeth, Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Ansicrwydd, y Gymraeg a Morlun Llanw
- Argymhellion ar gyfer gwellau sgiliau cynllunio

Nododd Joyce Watson AC fod angen cael pobl yn y diwydiant eisoes i wella eu sgiliau, yn ogystal â thynnu sylw at yr angen i dargedu menywod er mwyn gwella cynrychiolaeth. Soniodd am ymweliad

seneddwragedd menywod y gymanwlad yr wythnos ganlynol, sydd â ffocws ar adeiladu a pheirianneg.

Cododd Ken Pearson y mater o ddenu pobl ifanc i faes adeiladu, ac mai ychydig iawn o bobl sy'n ymwybodol y gall prentisiaethau arwain at fywyd da. Tynnodd sylw at yr angen i addysgu pobl ifanc bod diwydiant sy'n cynnig bargen dda iddynt.

Nododd Ed Evans bod angen rhywbeth ar y diwydiant a fydd yn caniatáu iddynt gael data ystyrlon ar gyfer trafodaethau â Llywodraeth Cymru, diwydiant a phartneriaethau. Mae ansawdd y data yn dibynnu a flaenraglen waith gywir. Yna, gallent ddangos sut y mae newid yn effeithio ar sgiliau.

Tynnodd Jeremy Miles AC sylw at adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar y comisiwn seilwaith, sy'n hepgor sgiliau ond nid oes amheuaeth y caiff effaith ar y diwydiant.

Pwysleisiodd Joyce Watson AC bod materion mewn cysylltiad â sgiliau o dan y setliad datganoli y gallwn eu rheoli, ac na allwn eu rheoli.

Soniodd Jenny Rathbone AC am bwysigrwydd peidio â thaflu arian at brosiectau nad ydynt yn cyflawni amcanion. Mae angen mwy o gartrefi, ond mae'n rhaid iddynt fod wedi'u hadeiladu ar gyfer y 21ain ganrif. Mae angen y cartrefi di-garbon a fydd yn orfodol erbyn 2020. Yr hyn yr hoffwn i ei glywed yw pryd y gall y diwydiant ddarparu'r sgiliau manwl sydd eu hangen i adeiladu'r cartrefi hyn?

Nododd Owain Jones fod technoleg yn datblygu ac, er bod colegau'n darparu sgiliau traddodiadol, mae angen i bobl ifanc fod yn barod am waith.  Mae angen darparu profiad gwaith ochr yn ochr â hyfforddiant ar y safle, ac mae angen cynnwys staff presennol i helpu gyda'r hyfforddiant. Mae gormod o bobl yn cael eu derbyn gyda'r un disgwyliadau ar ran y cyflogwyr, ac mae pobl ifanc yn gadael y diwydiant. Gallwn fowldio pobl ifanc yn grefftwyr medrus.

Gofynnodd Joyce Watson AC a oedd pobl ifanc yn cael y sgiliau sydd eu hangen arnynt ai peidio.

Ymatebodd Owain Jones drwy ddweud eu bod yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt gan y colegau ond heb feithrin digon o sgiliau ar leoliad, lle y caiff y dechnoleg newydd ei llunio.

Nododd Gareth Davies na allwn ragweld y sgiliau fydd eu hangen ar sail prosiectau mawr. Ni chollwyd llawer o lafur i bont Hafren, yr hyn sydd ei angen yw lefel sylfaenol o anghenion y diwydiant wedi'u rhannu rhwng Cymru a Lloegr. Mae swyddi yn ne Lloegr yn broffidiol iawn i gwmnïau de-ddwyrain Cymru, felly mae'n bwysig bod contractwyr Cymru yn gallu bodloni'r galwadau hyn hefyd.

Gofynnodd Nick Blundell sut y gallwn dynnu pobl oddi ar fudd-daliadau'r llywodraeth a thuag at hyfforddiant ystyrlon. Mae llawer o arian a photensial yn cael ei wastraffu. Os yw pobl wedi cael blwyddyn o hyfforddiant ond nad ydynt yn gallu dod o hyd i gyflogwr i noddi'r blynyddoedd dilynol, byddai angen iddynt newid diwydiant. Mae angen cyfle hyfforddi hirdymor hyfyw.

Nododd Stephen Lawrence bod anfodlonrwydd o ran ymuno â rhaglenni oherwydd y costau pedair blynedd, a all fod yn wir rwystr i fyfyrwyr sy'n anfodlon ysgwyddo'r ddyled.

Nododd Helen Cain fod modelau erbyn hyn lle y gellir dechrau dysgu crefft i lefel gradd, ond bod angen gwneud mwy i'w hyrwyddo. Un peth sy'n amlwg yw y diffyg hyder ers y dirwasgiad diwethaf, a diffyg cyswllt rhwng cyrff addysg uwch a chyflogwyr. Mae'r cyswllt â gwaith wedi cael ei golli a daeth cyrsiau yn fwy academaidd. Mae angen ailgysylltu academia a diwydiant. Mae academïau

sgiliau yn un opsiwn a bydd galw o hyd am hyfforddiant traddodiadol, ond mae sgiliau newydd yn symud mor gyflym wrth i weithiwr proffesiynol hyfforddi at rywbeth, nid oes sicrwydd o gyflogaeth.

Dywedodd Joyce Watson AC pe baem yn ystyried peirianneg a'r sgiliau a ddysgir, maent yn sgiliau y gellir yn hawdd eu trosglwyddo, ac yn hytrach nag edrych ar hyn yn y cylch, mae angen hyfforddi pobl fel bod ble y maent yn eu cludo i rywle arall.

Dywedodd Mark Bowen nad oes gennym brinder sgiliau, ond fod angen i bobl fod yn barod am waith. Fel cwmni o orllewin Cymru, nid oes gennym brinder sgiliau, mae gennym brinder gwaith. Byddai rhagor o waith yn golygu rhagor o brentisiaid. Dyma'r flwyddyn gyntaf mewn 147 lle nad oes gennym brentis, am nad oes gennym waith o'n blaenau.

Dywedodd Sharon Davies nad yw aelodau ein sector yn derbyn prentisiaid ers i'r cyllid ddod i ben ar gyfer ein sector. Mae argyfwng o'n blaenau, gyda thrydanwyr a morlun llanw a phrosiectau eraill. Rydym wedi mynd i'r afael â phethau gyda phrentisiaeth tân a diogelwch ond rwy'n credu bod prinder. Mae clystyrau o bobl sydd â sgiliau, ond nid yw'r sgiliau hynny'n ddigon, er enghraifft mewn gwaith ffasâd a chladin.

**CAMAU GWEITHREDU** Gofynnodd Jeremy Miles AC am i'r cyflwyniad gael ei ddosbarthu i'r grŵp.
**CAMAU GWEITHREDU** Y Grwp i adolygu ei aelodaeth